# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 5 Mehefin 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 141(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Gwasanaethau Rheilffyrdd a Metro De Cymru

(45 munud)

**Dogfen Ategol:**

Datganiad Ysgrifenedig - Y newyddion diweddaraf am gaffael Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(45 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Diweddariad ar flaenoriaethau'r Iaith Gymraeg

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Diweddariad ar y Rhaglen Swyddi Gwell yn Nes at Adref

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Newidiadau i Gyfradd y Comisiwn ar Gartrefi mewn Parciau

(45 munud)

**Dogfennau ategol:**

Datganiad Ysgrifenedig – Cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion i Ymgynghoriad: Cyfradd y Comisiwn ar Gartrefi mewn Parciau

Canlyniad yr Ymgynghoriad – Cyfradd y comisiwn ar gartrefi mewn parciau

## 8 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

(5 munud)

**NDM6732** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) Adrannau 1 i 9;
b) Atodlen 1;
c) Adrannau 10 i 29;
d) Teitl hir.

Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 6 Mehefin 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 31/05/2018 i'w hateb ar 05/06/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

1 OAQ52286

Sut y mae'r Prif Weinidog yn asesu cynnydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau sy'n ymwneud â datblygu economaidd a nodir yn y rhaglen lywodraethu?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

2 OAQ52261

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfarnu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OAQ52260

Pa strategaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn yn y dyfodol i wella cydlyniant cymunedol yn ne Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

4 OAQ52285

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fasnachfraint rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau?

**Lee Waters** *Llanelli*

5 OAQ52283

Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog ar waith i gefnogi cyflwyno technoleg 5G?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

6 OAQ52274

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi busnesau bach yng Nhrefynwy?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

7 OAQ52266

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu llywodraeth leol?

**David Rees** *Aberafan*

8 OAQ52284

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn a chefnogi'r diwydiant dur yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

9 OAQ52262

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella mynediad at feddygon teulu yng ngogledd Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**10** OAQ52258

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoleiddio ffermio dofednod dwys yng Nghymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**11** OAQ52255

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y defnyddir cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

**12** OAQ52264

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnig gofal plant Llywodraeth Cymru i rieni sy'n gweithio?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**13** OAQ52256

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr yn Sir Benfro?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**14** OAQ52280

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth ar gyfer teithio llesol yng Nghymru?